# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC)

**Y Cynghorydd ELP Caparros**

**Ward: Dwyrain Bracla a Llangrallo Isaf**

**Plaid: Llafur Cymru**

Mae’r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Ebrill 2023. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

**<u>Rôl a Chyfrifoldebau</u>**

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Dwyrain Bracla a Llangrallo Isaf ar 5 Mai 2022. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y Cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi i sawl pwyllgor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi codi 77 ymholiad gan etholwyr yn ffurfiol gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â materion eraill yr ydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynychu nifer o Weithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi fy helpu i sicrhau bod fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a fy ward yn cael ei chynnal.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am fy ngwaith ar is-bwyllgorau - Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned, Amlosgfa Llangrallo, Panel Apeliadau a Chraffu drwy ddefnyddio'r ddolen hon:
Cynghorydd Eugene Caparros

**<u>Gweithgarwch yn yr Etholaeth</u>**

Mae trigolion wedi codi nifer o faterion pwysig ar amrywiaeth o bynciau. Gan amlaf, mae'r rhain yn ymwneud â phriffyrdd a mannau gwyrdd. Mae wedi bod yn braf gweld llawer o’n materion, o dyllau yn y ffyrdd i arwyddion newydd yn cael eu hatgyweirio'n gyflym ac i ansawdd da gan dimau BCBC. Edrychaf ymlaen at gael wyneb newydd ar Meadow Close ac at atgyweirio’r goleuadau yn Llangrallo. Roedd croeso mawr i osod wyneb newydd ar gylchfan yr Amlosgfa/Ffordd Bracla, mae llawer i’w wneud o hyd a byddaf yn parhau i wthio i’n ward gael ei chynnal i’r safonau uchel y mae trigolion yn eu haeddu.

Ar fannau gwyrdd rydym wedi gweld manteision plannu Fox Fields wrth i'r gwelyau blodau gwyllt ffynnu; graean newydd wedi'i osod ar y llwybr o Ffordd Bracla i Fryn Bracla gan ei gwneud yn haws i drigolion gael mynediad i'r man gwyrdd a'i fwynhau. Gobeithiwn wneud gwelliannau pellach dros y blynyddoedd nesaf.

Mae'r is-bwyllgorau a benodwyd i mi wedi rhoi blas i mi ar rai o'r ystod eang o wasanaethau y mae Pen-y-bont ar Ogwr yn eu derbyn gan y cyngor a gwaith caled ac ymroddiad staff y cyngor. Rydym yn ddiolchgar am bopeth y maent yn ei wneud ar gyfer ein cymuned.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Ym mis Rhagfyr cynhaliodd fy nghydweithiwr ward Simon Griffiths a minnau gyfarfod cyhoeddus yn y ganolfan gymunedol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i drigolion am gyflwyno terfynau cyflymder 20MYA a chyffordd "Singleton". Rydym wedi bod yn gweithio'n galed ar gyfer y gyffordd hon i gael y gydnabyddiaeth a'r buddsoddiad sydd ei angen arni i'w gwneud yn fwy diogel i ddefnyddwyr, rydym yn falch bod swyddogion yn ystyried y mater.

O ran terfynau cyflymder roedd trigolion yn gallu cymryd rhan yn yr ymgynghoriad ar-lein, rwy'n gobeithio bod y preswylwyr yn hapus gyda'r cynigion i wneud ardaloedd yn fwy diogel o amgylch ysgolion a chyflwyno rhai eithriadau i'r newid i'r terfyn cyflymder.

**Gweithgareddau/Materion Eraill**

Yn ogystal â fy ngwaith yn BCBC roeddwn yn ffodus hefyd i gael fy ethol i Gynghorau Cymuned Bracla a Llangrallo. Mae'n wych gweithio gyda'n cynghorwyr cymuned, swyddogion a thrigolion sydd i gyd yn angerddol am faterion lleol ac yn gweithio'n hynod o galed i wneud hwn yn lle gwell i fyw.

**Cynghorydd: Eugene Caparros** **Dyddiad: 19.06.23**